



Y Ganolfan  
Dysgu Cymraeg  
Genedlaethol —  
National Centre  
for Learning Welsh

**Gyda'n  
gilydd  
at y miliwn**

**Together  
towards  
the million**

**Cynllun Strategol  
Dysgu Cymraeg  
Learn Welsh  
Strategic Plan  
2024-2026**

**“...Mae cyfraniad siaradwyr  
sy'n dysgu'r Gymraeg y tu allan  
i'r cartref yn gwbl allweddol i  
lwyddiant ein strategaeth.”**

**“...The contribution of speakers  
who acquire Welsh outside the  
home is vital to the success of  
our strategy.”**

Cymraeg 2050:  
Miliwn o siaradwyr A million Welsh speakers

[dysgucymraeg.cymru](https://dysgucymraeg.cymru)  
[learnwelsh.cymru](https://learnwelsh.cymru)




Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



Dysgu  
Learn

# Mwynhau Dysgu Cymraeg gyda ni

## Enjoy Learning Welsh with us



**2,500**  
o gyrsiau cymunedol  
community courses




**Prosiectau arbennig:**  
Iechyd a Gofal, Pobl Ifanc, Teuluoedd,  
Gweithlu Addysg, a Chwaraeon  
Health and Care, Young People, Families,  
Education Workforce, and Sport

**99%**

o ddysgwyr yn mwynhau  
dysgu Cymraeg  
of learners enjoy  
learning Welsh



**30,000**  
o weithgareddau dysgu  
learning activities



Dysgu yn ystod  
y dydd a gyda'r hwyr  
Learning during the  
daytime and evening


**Arwain yn strategol –  
arbenigwyr addysgeg a  
chaffael iaith**



Strategic leadership -  
language acquisition and  
pedagogy experts



**17,000**  
o ddysgwyr  
learners



o adnoddau dysgu  
digidol RHAD AC AM DDIM,  
gan gynnwys cyrsiau blasu  
FREE learning resources,  
including taster courses



**Cyrsiau ar bum lefel,  
sy'n cyd-fynd â'r CEFR\***  
Courses at five levels,  
which align with the CEFR\*

\*Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd, y 'CEFR'.  
Common European Framework of Reference for Languages, 'CEFR'.



**Dysgu yn y gymuned,  
y gweithle, yn rhithiol  
ac ar-lein.**  
Learning in the  
community, workplaces,  
virtual and online.

## Cyflwyniad

# Croesawu dysgwyr a siaradwyr Cymraeg newydd

**Fe gwblhaodd bron i 17,000 o bobl (16,905) gyrsiau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn 2022-2023 – cynnydd 33% ar 2017-2018, y flwyddyn gyntaf i'r Ganolfan gyhoeddi data.**

**Ymfalchïwn ym mhob un o'n dysgwyr – mae eu hymroddiad a'u brwdfrydedd at y Gymraeg yn ysbrydoliaeth barhaus i bawb sy'n gweithio yn y sector Dysgu Cymraeg, ac mae ein diolch yn fawr i'r gweithlu cyfan am eu hysbrydoli a'u cefnogi.**

**Mae bwrlwm y sector a'r twf yn niferoedd ein dysgwyr yn adlewyrchu prif nod y Ganolfan o groesawu a galluogi cynulleidfaoedd o gefndiroedd amrywiol i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg, gan gefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.**

**Mae'r Ganolfan yn sefydliad cenedlaethol, sy'n gyfrifol am bob agwedd ar y sector Dysgu Cymraeg. Mae'n arbenigo ar faterion caffael ac addysgeg iaith, ac mae'n arwain yn strategol er mwyn ymestyn y cyfleoedd i gynulleidfaoedd amrywiol ddysgu a defnyddio'r Gymraeg.**

**Mae gwaith y Ganolfan wedi esblygu. Mae oedolion sydd eisiau dysgu'r Gymraeg yn eu cymunedau ac yn rhithiol yn rhan allweddol o'i gwaith, yn ogystal â gweithwyr mewn gweithleoedd a sectorau penodol, pobl ifanc 16-25 oed a theuluoedd. Mae'r Ganolfan hefyd yn cynnig gweithgareddau i annog defnydd o'r Gymraeg, ac mae hynny'n mynd law yn llaw â'r gwasanaeth Dysgu Cymraeg.**

## Introduction

# Welcoming Welsh learners and new Welsh speakers

**Almost 17,000 people (16,905) completed National Centre for Learning Welsh courses in 2022-2023 – a 33% increase on 2017-2018, the first year the Centre published data.**

**We are proud of each and every one of our learners whose dedication and passion for the language are a continuing inspiration to everyone working in the Learn Welsh sector, and we are grateful to the whole workforce for inspiring and supporting them.**

**The vibrancy of the sector and the growth in our learner numbers reflect the Centre's main aim of welcoming and enabling audiences from all backgrounds to learn and use Welsh, supporting the Welsh Government's aim of reaching one million Welsh speakers by 2050.**

**The Centre is a national organisation, responsible for all aspects of the Learn Welsh sector. Specialising in language acquisition and pedagogy, the Centre provides strategic leadership to extend opportunities for different audiences to learn and use Welsh.**

**The work of the Centre has evolved. Adults who wish to learn Welsh in both their communities and in virtual classrooms are a key part of our work, as well as workers in specific workplaces and sectors, young people aged 16-25 and families. The Centre also offers activities to encourage the use of Welsh, complementing the Learn Welsh service.**

## Gwasanaeth o ansawdd

Anelir at wasanaeth o ansawdd uchel. Mae'r sector, gan gynnwys y Ganolfan, yn cael ei arolygu gan Estyn.

Casgliad Estyn yn ystod arolwg 2024 oedd bod y Ganolfan dros amser yn esblygu o fod yn ddarparwr cyrsiau a gweithgareddau Cymraeg i oedolion yn unig, i fod yn "ddylanwadwr ieithyddol." Dywedodd Estyn bod y Ganolfan, mewn cydweithrediad â darparwyr Dysgu Cymraeg a phartneriaid eraill, yn sicrhau bod ystod lawn o gyrsiau ar draws y lefelau sy'n rhoi llwybrau dilyniant clir i ddsygwyr. Nodwyd mai un o ddatblygiadau nodedig y Ganolfan oedd y cynnydd yn yr arlwy cyfoethog o ddarpariaeth sector-benodol, sy'n cefnogi dysgwyr i gael mynediad hygrych at wersi fel rhan allweddol o'u gwaith o ddydd i ddydd. Mae'r rhaglenni dysgu yn cael eu cynllunio a'u haddasu'n fwriadus er mwyn ymateb i ddulliau sydd fwyaf addas i ddyheadau ac argaeledd dysgwyr.

Roedd Estyn yn cynnig dau argymhelliad i'r Ganolfan, sef: i) parhau i ymestyn a rhannu arbenigedd y sector Dysgu Cymraeg, o ran addysgeg a chaffael ail iaith, i sectorau perthnasol eraill, er mwyn cefnogi nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050; a ii) parhau i arloesi trwy hwyluso gweithgareddau cynllunio ieithyddol sy'n integreiddio siaradwyr newydd ac anfoddog mewn mentrau i normaleiddio defnydd o'r Gymraeg yn eu cymunedau ac yn eu gwaith.

Cynhaliwyd adolygiad cyflym o'r Ganolfan gan Lywodraeth Cymru yn 2021. Casgliad yr adolygiad oedd bod y Ganolfan yn ystod cam cyntaf ei bodolaeth (2016-2021) wedi llwyddo i gydgyssylltu, cynllunio, darparu a datblygu darpariaeth Dysgu Cymraeg ar lefel genedlaethol. Cynigiwyd yn ystod ail gam ei bodolaeth (2022-2027), bod angen datblygu a chryfhau ei rôl fel sefydliad allweddol a strategol sy'n ganolog i'r broses o gaffael y Gymraeg.

## A quality service

We aim for a high-quality service, and the sector, including the Centre, is inspected by Estyn.

Estyn concluded in its 2024 inspection that the Centre is evolving from being a provider of Welsh for adults courses and activities only, to being a "linguistic influencer." Estyn said the Centre, in collaboration with Learn Welsh providers and other partners, ensures a full range of courses across the learning levels that provide clear progression routes to learners. One of the Centre's notable developments is the increase in the rich range of specific-sector provision that supports learners to have easy access to lessons as a key part of their day-to-day work. Learning programmes are planned and adapted purposefully to respond to the methods that best suit the aspirations and availability of learners.

Estyn made two recommendations for the Centre, that it: i) continues to extend and share the expertise of the Learn Welsh sector, in terms of pedagogy and second language acquisition, in order to support the Welsh Government's aim of reaching one million Welsh speakers by 2050, and ii) continues to innovate by facilitating linguistic planning activities that integrate new and reluctant speakers in initiatives to normalise the use of the Welsh language in their communities and their work.

A rapid review of the Centre was undertaken by the Welsh Government in 2021. The review concluded that during the first phase of its existence (2016-2021) the Centre was successful in coordinating, planning, delivering and developing provision for learning Welsh at a national level. It was proposed that during the second phase of its existence (2022-2027), its role as a key and strategic organisation central to the acquisition of Welsh needed to be developed and strengthened.



Ers 2022, mae'r Ganolfan wedi parhau i gynnig mwy o ddewis i ddysgu, defnyddio a mwynhau'r Gymraeg. Mae wedi derbyn cyfrifoldebau newydd i ymestyn ei gwaith i bobl ifanc 16-18 oed a dwysáu'r gwaith o ddenu pobl ifanc 18-25 oed i ddysgu Cymraeg. Mae wedi cynyddu ei chynlluniau i deuluoedd ac wedi gweithio gyda gweithluoedd newydd i greu mwy o gyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg, gan gynnwys dau sector pwysig, y gweithlu addysg statudol a'r gweithlu iechyd a gofal. Mae niferoedd y dysgwyr wedi cynyddu a'r her a'r cyfle i'r sector yw parhau i ymateb i'r galw sy'n gynyddol uchel.

## Cynllunio ar gyfer y cyfnod nesaf

Lluniwyd y cynllun yma ar droad newidiadau sylweddol i'r sector addysg statudol, wrth i Lywodraeth Cymru gyflwyno Bil y Gymraeg ac Addysg.

Prif amcan y Bil yw cyfrannu at y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, drwy geisio sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd diwedd oedran addysg orfodol yn ddefnyddiwr Cymraeg annibynnol, o leiaf. Mae'r Bil yn cynnig sefydlu corff statudol, sef yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, fydd yn gyfrifol am gefnogi pobl (o bob oedran) i ddysgu Cymraeg.

Mae'r Ganolfan wedi llwyddo i gyflawni amcanion adroddiad 'Codi Golygon' y Llywodraeth, sef adolygiad o'r maes Cymraeg i Oedolion. Mae wedi derbyn canmoliaeth gan Estyn ac yn yr adolygiad cyflym a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2021. Rydym yn edrych ymlaen at gydweithio â Llywodraeth Cymru i greu strategaeth ganolog a hir-dymor ar gyfer Dysgu Cymraeg gydol oes.

Dywedodd Jeremy Miles, cyn-Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg:

*“Mae llwyddiannau'r Ganolfan wrth gyflwyno un llwybr dysgu clir i ddysgwyr wedi bod yn ganolog i'n gwaith o baratoi'r Bil.”*

Dona Lewis  
Prif Weithredwr  
Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Since 2022, the Centre has continued to offer an increased variety of opportunities to learn, use and enjoy the language. It has been given new responsibilities to extend its work to 16–18-year-olds and intensify the work to attract 18–25-year-olds to learn Welsh. It has expanded its plans for families and worked with new workforces to create more opportunities to learn and use Welsh, including two major sectors: the statutory education workforce and the health and care workforce. Learner numbers have increased and the challenge and opportunity for the sector is to continue to meet the increasingly high demand.

## Planning for the next phase

This strategic plan was drawn up as major changes are being proposed for the education sector, with the introduction of the Welsh Government's new Welsh Language and Education Bill.

The Bill's main purpose is to support the aim of a million Welsh speakers by 2050, by aiming to ensure that all pupils are independent Welsh language users, at least, by the time they reach the end of compulsory school age. The Bill proposes to establish a statutory body, the National Institute for Learning Welsh, which would be responsible for supporting people (of all ages) to learn Welsh.

The Centre has succeeded in achieving the aims of the 'Raising our Sights' Welsh Government review of the Welsh for Adults sector. It has received praise from Estyn and in the rapid review commissioned by the Welsh Government in 2021. We look forward to working with the Welsh Government to create a medium and long-term strategy for supporting people of all ages to learn Welsh.

Jeremy Miles, former Cabinet Secretary for the Economy, Energy and the Welsh language, said

*“The successes of the Centre in introducing one clear path for learners have been central to our work of preparing the Bill.”*

Dona Lewis  
Chief Executive  
The National Centre for Learning Welsh

## 1. Llinell amser

Mae'r llinell amser isod yn rhoi cyd-destun i waith y Ganolfan dros yr hanner can mlynedd diwethaf. Mae twf aruthrol yn ei gwaith ers y pandemig, gyda mwy o gyfleoedd nag erioed i bobl fwynhau dysgu a siarad y Gymraeg. Mae'r holl ddatblygiadau diweddar yn sail gadarn i'n gwaith ar gyfer y cyfnod nesaf.

## 1. Timeline

The timeline below provides a context for the Centre's work, which has grown enormously since the pandemic, with more opportunities than ever for people to enjoy learning and speaking Welsh. All these recent developments provide a solid foundation for the Centre's work for the next period.

1960au-70au | 1990au | 2000au | 2010au-presennol | 1960s-70s | 1990s | 2000s | 2010s-present

### 1960au-70au 1960s-70s

Cyrsiau Cymraeg i Oedolion yn cael eu datblygu.  
Datblygu cyrsiau dwys WLPAN.

Welsh language courses for adults developed.  
Development of intensive WLPAN courses.

1994

Sefydlu wyth consortiwm rhanbarthol i fod yn gyfrifol am gydylynu'r ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion.

Eight regional consortia founded to be responsible for co-ordinating Welsh for Adults provision.

1999

Sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

National Assembly for Wales established.

2000

ELWa yn dod yn gyfrifol am drefniadau ariannu Cymraeg i Oedolion.

ELWa takes control of financial arrangements of Welsh for Adults.

2003

Iaith Pawb yn argymhell ymchwilio i'r cyfleoedd ar gyfer sefydlu Canolfannau Cymraeg i Oedolion pwrpasol.

Iaith Pawb recommends exploring the possibilities for establishing dedicated Welsh for Adults Centres.

2006

Sefydlu chwe Chanolfan Cymraeg i Oedolion.

Six Welsh for Adults centres established.

2011

Mesur y Gymraeg 2011 yn gwneud y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru ac yn sefydlu swyddogaeth Comisiynydd y Gymraeg.

The Welsh Language Measure 2011 makes Welsh an official language in Wales and establishes the role of the Welsh Language Commissioner.

2012

Cyhoeddi strategaeth Llywodraeth Cymru, Iaith Fyw: Iaith Byw.

Publication of the Welsh Government's strategy, A Living Language: A Language for Living.

	<b>2013</b>	
<b>Cyhoeddi Codi Golygon: adolygiad o Gymraeg i Oedolion.</b>		Publication of Raising our Sights: review of Welsh for Adults.
	<b>2016</b>	
<b>Safonau'r Gymraeg a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn gyfreithiol rwymol ar gyrff perthnasol o 30 Mawrth 2016.</b>		Welsh Language Standards published by the Welsh Language Commissioner become legally binding on relevant bodies from 30 March.
<b>Sefydlu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (cyfrifoldebau yn trosglwyddo'n llawn ar 1 Awst).</b>		The National Centre for Learning Welsh established (responsibilities fully transferred on 1 August).
	<b>2016</b>	
<b>Cyhoeddi cwricwlwm Dysgu Cymraeg newydd a sefydlu rhwydwaith o ddarparwyr.</b>		Publication of the new Learn Welsh curriculum; a network of providers is established.
	<b>2017</b>	
<b>Cyhoeddi Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg.</b>		Publication of Cymraeg 2050: A million Welsh speakers.
	<b>2017</b>	
<b>Datblygu adnoddau i gyd-fynd â'r cwricwlwm newydd, gan gynnwys elfen ryngweithiol gref.</b>		Resources developed to accompany the new curriculum, including a strong interactive element.
<b>Llunio Strategaeth Farchnata a Chyfathrebu.</b>		Marketing and Communications Strategy created.
	<b>2017 ymlaen onwards</b>	
<b>Datblygu a gweithredu Cymraeg Gwaith: rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr i weithleoedd.</b>		Work Welsh scheme developed and delivered: a comprehensive training programme for workplaces.
<b>Cyflwyno cynllun i ddatblygu'r gweithlu, gan gynnwys lansio Academi a chyflwyno cymwysterau addysgu newydd.</b>		Workforce Development Plan introduced, including the launch of 'Academi' and the introduction of new teaching qualifications.
	<b>2018 ymlaen onwards</b>	
<b>Cydweithio â phartneriaid ar draws y Sector Iechyd, Addysg Uwch ac Addysg Bellach, a Gofal Blynyddoedd Cynnar i esblygu a mireinio Cymraeg Gwaith, gan ddatblygu ystod o gynlluniau lefel-sectorol.</b>		Working with partners across the Health, Further and Higher Education, Care and Early Years Sectors to establish and develop the Work Welsh scheme, developing a range of sector-level programmes.
	<b>2019</b>	
<b>Dod yn Gyhoeddwr Ystadegau Swyddogol.</b>		Publisher of Official Statistics.
<b>Cydweithio â darlledwyr ac eraill i gynnig arlwy eang i ddysgwyr y tu allan i'r dosbarth.</b>		Working with broadcasters and others to offer a wide provision for learners outside the classroom.

## 2020

Gwasanaeth y sector yn newid yn sgil y pandemig, a'r cyrsiau Dysgu Cymraeg yn cael eu cynnig yn rhithiol am y tro cyntaf erioed. Nifer uchaf erioed o ddysgwyr yn defnyddio'r gwasanaeth.

Change in sector service due to the pandemic, with Learn Welsh courses offered virtually for the first time ever. Service used by a record number of learners.

## 2021

Arolwg cadarnhaol Estyn.

Positive inspection by Estyn.

## 2022

Cynllun 'Ymlaen gyda'r dysgu' yn ymestyn gwaith y Ganolfan i ddarparu cyfleoedd Dysgu Cymraeg i bobl ifanc 16+ oed am y tro cyntaf. Cyfle i ddechrau darparu gwasanaethau Dysgu Cymraeg i athrawon addysg statudol.

'Ymlaen gyda'r dysgu' scheme expands the Centre's work to provide Learn Welsh opportunities for young people aged 16+ for the first time. An opportunity to start providing Learn Welsh services for teachers in statutory education.

## 2023

Sefydlu cynllun uchelgeisiol i ddarparu rhaglen Dysgu Cymraeg unigryw i'r Sector Iechyd a Gofal.

Ambitious plan established to deliver a unique Learn Welsh programme for the Health and Care Sector.

## 2024

Estyn yn galw'r Ganolfan yn "ddylanwadwr ieithyddol."

Estyn calls the Centre a "linguistic influencer."

Cyhoeddi data 2022-23 yn dangos twf sylweddol yn niferoedd y dysgwyr, cynnydd o 33% ers sefydlu'r Ganolfan, gyda 16,905 o bobl yn cwblhau cyrsiau'r Ganolfan.

Publish data for 2022-2023 which shows a significant increase in the number of learners, with an increase of 33% since the Centre was established, with 16,905 people completing the Centre's courses.

Ail-strwythuro a sefydlu cyfarwyddiaeth newydd i ddatblygu rhaglen Dysgu Cymraeg i'r gweithlu addysg.

Re-structure and establish a new directorate to develop a Learn Welsh programme for the education workforce.

Cyhoeddi Cynllun Gwrth-hiliol ar gyfer y Ganolfan am y tro cyntaf.

Publish an Anti-racist plan for the first time.

## 2. Cyd-destun Polisi

Mae cyfraniad clir a phwysig gan y Ganolfan i'w wneud wrth gefnogi blaenoriaethau polisi ac arwain cynlluniau cenedlaethol i gefnogi dysgu'r Gymraeg.

Mae'r prif bolisiau sy'n llywio gwaith y Ganolfan wedi'u nodi isod. Mae'r Ganolfan yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru, ac mae cyflawni'r uchelgais sy'n cael ei nodi yn y ddogfen hon yn ddibynnol ar barhad y gyllideb honno.

### Cymraeg 2050

Mae Strategaeth Cymraeg 2050, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017, yn tanlinellu cyfraniad allweddol y sector Dysgu Cymraeg i'r nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg. Mae'r Strategaeth yn cydnabod y cyfleoedd, ers sefydlu'r Ganolfan, i ddatblygu darpariaeth ar lefel genedlaethol i gefnogi gweithluoedd a theuluoedd, a chyfleoedd i ddefnyddio technoleg i gefnogi'r dysgu.

Mae'r Cynllun Strategol hwn yn cefnogi ac yn cyfrannu tuag at wireddu uchelgais Strategaeth Cymraeg 2050. Mae hefyd yn nodi pwysigrwydd rôl y Ganolfan wrth ddarparu arweiniad strategol, gan annog ymrwymiad tuag at ddysgu'r Gymraeg ymysg cyflogwyr a rhanddeiliaid.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cefnogi cyrff cyhoeddus i weithio tuag at saith o nodau llesiant. Mae gwaith y Ganolfan yn cefnogi gweledigaeth y Ddeddf, gan gynnwys y nod o greu Cymru lewyrchus a chyfartal lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

### Ffyniant i Bawb

Cyhoeddwyd cynllun gweithredu yr economi, Ffyniant i Bawb, yn 2017 gan gydnabod y gyd-berthynas rhwng cymunedau Cymraeg eu hiaith a'r economi. Mae'r rhaglen Cymraeg Gwaith yn cynorthwyo cyflogwyr mewn sectorau penodol i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg ac i gynyddu eu darpariaeth o wasanaethau Cymraeg.

## 2. Policy Context

The Centre has a clear and important contribution to make in supporting policy priorities and leading national plans to support learning Welsh.

The main policies informing the Centre's work are set out below. The Centre is funded by the Welsh Government, and achieving the ambition set out in this document is dependent on the continuation of this funding.

### Cymraeg 2050

The Cymraeg 2050 strategy, introduced by the Welsh Government in 2017, underlines the key contribution of the Learn Welsh sector to the aim of achieving a million Welsh speakers. The Strategy acknowledges the opportunities, since the Centre's establishment, to develop provision at a national level to support workforces and families, and opportunities to use technology to support learning.

This Strategic Plan supports and contributes towards reaching the goal of the Cymraeg 2050 strategy. It also outlines the importance of the Centre's role in providing strategic guidance and promoting a commitment to learning Welsh among employers and stakeholders.

### The Well-being of Future Generations Act

The Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 requires public bodies to work towards the seven well-being goals. The Centre's work supports the vision of this act, including the aim of creating a prosperous and equal Wales where the Welsh language thrives.

### Prosperity for All

The economic action plan, Prosperity for All, was published in 2017 and acknowledges the relationship between Welsh-language communities and the economy. The Work Welsh programme supports employers in specific sectors to enable them to increase their use of the Welsh language and increase their provision of Welsh-language services.



### Polisi Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd o fewn teuluoedd

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cynigion polisi ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd. 'Defnydd' yw un o themâu y Cynllun hwn ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd datblygu sgiliau ymysg oedolion sy'n eu galluogi i ddefnyddio'r iaith yn hyderus o fewn y cartref a gyda phlant. Trwy ein darpariaeth gynhwysfawr, mae'r Ganolfan yn atgyfnerthu'r nod o gefnogi defnydd mewn teuluoedd.

### Polisiâu a chynlluniau gwaith lefel sector

Mae datblygiadau a chynlluniau gwaith sectorol yn dylanwadu ar y ffordd mae'r Ganolfan yn gweithredu ac yn blaenoriaethu ei gwaith gyda phartneriaid strategol. Er enghraifft, mae'r Ganolfan yn cefnogi camau gweithredu Mwy na Geiriau, y fframwaith strategol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol, gan weithio'n agos gyda'r Byrddau Iechyd. Mae'r Ganolfan yn cefnogi camau gweithredu Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn addysg ac mae wedi datblygu rhaglen datblygu'r Gymraeg benodol ar gyfer y gweithlu addysg. Mae gwaith y Ganolfan i ddysgu Cymraeg i bobl ifanc 16-25 oed, a'r gwaith o uwch sgilio'r gweithlu Addysg Drydyddol i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg, yn cefnogi gwaith y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, Medr.

### Mesur y Gymraeg 2011

Mae'r gofynion ar gyrff cyhoeddus i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg hefyd yn dylanwadu ar ein gwaith, wrth i gyrff chwilio am gefnogaeth i gynyddu sgiliau'r gweithlu er mwyn medru darparu gwasanaethau yn y Gymraeg. Mae'r Ganolfan yn gweithio'n agos gyda Chomisiynydd y Gymraeg er mwyn sicrhau cydlynid o ran ei chynllun Dysgu Cymraeg i weithluoedd, Cymraeg Gwaith.

### Partneriaethau

Mae creu partneriaethau creadigol, i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd a chreu cyfleoedd i'n dysgwyr ddefnyddio'u Cymraeg, yn greiddiol i waith y Ganolfan.

### Policy on Welsh Language Transmission and use in families

The Welsh Government has developed policy proposals on the transmission of the Welsh language, and its use in families. 'Use' is one of the themes of this plan and we recognise the importance of developing skills among adults to enable them to use the language confidently at home and with children. Through our comprehensive provision, the Centre reinforces the aim of supporting use within families.

### Sector level work policies and plans

Sectoral developments and work plans influence the Centre's operations and priorities in its work with strategic partners. For example, the Centre supports the actions of More Than Just Words..., the strategic framework for Welsh-language services in health and social care, working closely with Health Boards. The Centre supports the actions set out in the Welsh in education workforce plan and has developed a specific Welsh language development programme for the education workforce. The Centre's work to teach Welsh to young people aged 16-25, and the work of upskilling the Tertiary Education workforce to use more Welsh, supports the work of Medr, the Commission for Tertiary Education and Research.

### Welsh Language Measure 2011

Our work is also informed by requirements for public bodies to comply with the Welsh Language Standards, as they seek support to increase workforce skills to enable services to be delivered in Welsh. The Centre works closely with the Welsh Language Commissioner to ensure co-ordination in its Learn Welsh workforce scheme, Work Welsh.

### Partnerships

Creating creative partnerships – to reach new audiences and create opportunities for our learners to use their Welsh – is a core part of the Centre's work.



## Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

Mae'r Ganolfan wedi ymrwymo i wireddu diben y cynllun, sef ar y cyd â'n partneriaid, gwneud gwahaniaeth mesuradwy i fywydau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Credwn fod y Gymraeg yn iaith sy'n perthyn i ni gyd, a'i bod yn ffordd o uno pobl o gefndiroedd gwahanol. Trwy gyhoeddi Cynllun Gwrth-hiliol, mae'r Ganolfan yn gweithio at y nod o weld mwy o oedolion o gymunedau Ethnig Leiafrifol yng Nghymru yn manteisio ar ddarpariaeth Dysgu Cymraeg.

## Anti-racist Wales Action Plan

The Centre is committed to realising the purpose of the plan, which in collaboration with our partners, is to make a measurable difference to the lives of Black, Asian and Ethnic Minority people. We believe that Welsh is a language that belongs to us all, and that it is a way of uniting people from different backgrounds. By publishing an Anti-racist Plan, the Centre is working towards the aim of seeing more adults from Ethnic Minority communities in Wales benefit from the Learn Welsh provision.

## Themâu strategol Cymraeg 2050

## Strategic themes in Cymraeg 2050

### Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

- Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu
- Y Blynyddoedd Cynnar
- Addysg statudol
- Addysg ôl-orfodol
- Y gweithlu addysg



### Increase the number of Welsh speakers

- Language transmission within the family
- The Early Years
- Statutory education
- Post-compulsory education
- Education workforce

### Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg

- Y gweithlu
- Gwasanaethau
- Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg



### Increase the use of the Welsh language

- The workforce
- Services
- Social use of the Welsh language

### Creu amodau ffafriol - seilwaith a chyd-destun

- Cymuned a'r economi
- Diwylliant a'r cyfryngau
- Cymru a'r byd ehangach
- Technoleg ddigidol
- Seilwaith a chynllunio ieithyddol
- Gwerthuso ac ymchwil



### Creating favourable conditions – infrastructure and context

- Community and the economy
- Culture and media
- Wales and the wider world
- Digital technology
- Infrastructure and linguistic planning
- Evaluation and research

## Sut mae gwaith y Ganolfan yn cefnogi'r themâu strategol hyn?

## How does the Centre's work support these strategic themes?

### ▶ Denu – agor drysau i ddyngu'r Gymraeg

- Marchnata a hyrwyddo
- Partneriaethau strategol
- Diwallu anghenion dysgwyr

### ▶ Dysgu – darparu gwasanaethau dysgu Cymraeg rhagorol

- Datblygu'r adnoddau a'r ddarpariaeth
- Datblygu'r gweithlu
- Cyfleoedd dysgu i bawb

### ▶ Defnyddio – helpu dysgwyr i ddefnyddio'r iaith

- Yn y cartref
- Yn y gymuned
- Yn y gweithle

### ▶ Cynllunio strategol - datblygu gwasanaeth Cymru gyfan

Datblygu ansawdd  
Ymchwil a dadansoddi  
Cynllunio ieithyddol

### ▶ Attract – open doors to learning Welsh

- Marketing and promotion
- Strategic partnerships
- Meeting the needs of learners

### ▶ Teach – provision of excellent Learn Welsh services

- Develop the resources and provision
- Develop the workforce
- Learning opportunities for all

### ▶ Use – assist learners in using the language

- In the home
- In the community
- In the workplace

### ▶ Strategic planning – develop an all-Wales service

Develop quality  
Research and analysis  
Linguistic planning

### 3. Cyd-destun Dysgu Cymraeg

#### Cefndir

Sefydlwyd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn 2016 yn dilyn adolygiad o'r sector Dysgu Cymraeg, o'r enw 'Codi Golygon', a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru.

Y Ganolfan sy'n gyfrifol am gynllunio'r ddarpariaeth Dysgu Cymraeg yn strategol a sicrhau darpariaeth eang o ansawdd uchel. Mae holl waith dysgu ac addysgu y Ganolfan wedi ei wreiddio yn lefelau dysgu Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd, y 'CEFR' (Common European Framework of Reference for Languages).

Mae hyn yn cynnwys:

- ▶ Dewis eang o gyrsiau Dysgu Cymraeg ar draws Cymru, gan ddilyn amrywiaeth o fodolau dysgu.
- ▶ Datblygu cynllun strategol i roi arweiniad i gyflogwyr a sectorau ar uwch sgilio'r gweithlu i ddarparu gwasanaethau dwyieithog.
- ▶ Cynlluniau arloesol i bobl ifanc 16-25 oed.
- ▶ Cynlluniau penodol ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol e.e. teuluoedd.

Mae'r Ganolfan yn datblygu cynlluniau gweithredu blynyddol er mwyn cyflawni'r hyn a nodir yn y Cynllun Strategol. Mesurir llwyddiant y gweithredu drwy gasglu tystiolaeth ansoddol a meintiol gan gynnwys llais y dysgwyr a'r gweithlu, a dadansoddi ystod eang o ddata cenedlaethol.

Ar gyfer blwyddyn academiaidd 2023-24 derbyniodd y Ganolfan y grantiau canlynol:

Grant Gweithredol	£1,900,000
Grant Rheolaidd (Darparwyr Cymraeg Gwaith)	£8,810,000
Ymlaen gyda'r Dysgu (gweithlu addysg a phobl ifanc)	£1,865,000
<b>CYFANSWM</b>	<b>£15,150,832</b>

Mae'n bosib gweld cyfrifon llawn y Ganolfan ar wefan Tŷ'r Cwmnïau.

### 3. Learn Welsh Context

#### Background

The National Centre for Learning Welsh was established in 2016 following a review of the Learn Welsh sector – called 'Raising our Sights' – conducted by the Welsh Government.

The Centre is responsible for the strategic planning of the Learn Welsh provision, and for ensuring a wide range of high-quality provision. All the Centre's teaching and learning work is rooted in the learning levels of the 'CEFR', the Common European Framework of Reference for Languages.

This includes:

- ▶ A wide choice of Learn Welsh courses across Wales, delivered via a variety of learning models.
- ▶ The development of a strategic plan to guide employers and sectors on upskilling the workforce to provide bilingual services.
- ▶ Innovative planning for young people aged 16-25.
- ▶ Specific plans for various audiences e.g. families.

The Centre develops annual action plans in order to achieve the aims of the Strategic Plan. Success is measured by collating quantitative and qualitative evidence, including the voice of the learners and workforce, and analysing a wide range of national data.

For the 2023-24 academic year, the Centre received the following grants:

Operational Grant	£1,900,000
Regular Grant (Providers)	£8,810,000
Work Welsh	£2,575,832
Ymlaen gyda'r Dysgu (education workforce and young people)	£1,865,000
<b>TOTAL</b>	<b>£15,150,832</b>

It is possible to see the Centre's full accounts on the Companies House website.

## Ystadegau Dysgu Cymraeg 2022-2023

Mae'r Ganolfan Genedlaethol wedi cyhoeddi ei data swyddogol diweddaraf, ar gyfer blwyddyn academaidd 2022-2023.

Mae'r data yn dangos cynnydd o 11% yn niferoedd y dysgwyr unigryw, o gymharu â blwyddyn academaidd 2021-2022, gyda 16,905 o bobl yn cwblhau cyrsiau'r Ganolfan.

Mae cynnydd o 9% yn niferoedd y bobl ifanc sy'n dysgu, o gymharu â 2021-2022, gyda 2,170 o bobl 16-24 oed yn cwblhau cyrsiau'r Ganolfan.

**Niferoedd y dysgwyr unigryw, ers i'r Ganolfan ddechrau cyhoeddi data:**

2017 – 2018	12,680
2018 – 2019	13,260
2019 – 2020	17,505*
2020 – 2021	14,965
2021-2022	15,260
2022-2023	16,905

*\*Mae blwyddyn 2019-2020 yn eithriad ble bu cynnydd sylweddol yn niferoedd y dysgwyr wnaeth droi at y cyrsiau hunan-astudio ar lefel blasu ar ddechrau cyfnod y pandemig.*

Mae mwy o fanylion ar wefan y Ganolfan: [dysgucymraeg.cymru](http://dysgucymraeg.cymru)

## Cynlluniau penodol

- ▶ Cymraeg Gwaith
- ▶ Cymraeg yn y Cartref
- ▶ Cynllun Gwrth-hiliol
- ▶ Dysgu Cymraeg Pobl Ifanc
- ▶ Dysgu Cymraeg Gweithlu Addysg
- ▶ Cefnogi Dysgu

## Learn Welsh Statistics 2022-2023

The National Centre has published its latest official data, for the 2022-2023 academic year.

The data shows an 11% increase in the numbers of unique learners, compared with the 2021-2022 academic year, with 16,905 people completing the Centre's courses.

There's a 9% increase in the numbers of young people learning Welsh, compared with 2021-2022, with 2,170 people aged 16-24 completing the Centre's courses.

**Numbers of unique learners, since the Centre started publishing data:**

2017 – 2018	12,680
2018 – 2019	13,260
2019 – 2020	17,505*
2020 – 2021	14,965
2021-2022	15,260
2022-2023	16,905

*\*2019-2020 was an exception when there was a significant increase in the number of learners following online taster courses at the beginning of the pandemic period.*

